ARWERTHWR / PRISIWR
(Tir neu Eiddo)

£18,000 i £40,000

Diffiniadau'r Geiriadur

Ar-werth-wr Enw
Person sy'n cynnal gwerthiant trwy arwerthu.

Berf (defnyddir gyda gwrthrych)
I werthu rhywbeth

DISGRIFIAD

Bydd Arwerthwr/Prisiwr yn gweld ac yn prisio tir neu eiddo ac yn cynhyrchu adroddiadau manwl a chywir. Os yw'r tir neu eiddo yn mynd i arwerthiant, mae'r Arwerthwr yn annog cynigion ac yn ceisio cael y pris uchaf i'r cleient (y person sy'n gwerthu). Yn aml, mae angen i'r cleient wybod gwerth y tir neu'r eiddo i'w gwerthu ond weithiau, mae angen gwybod y gwerth fel y gall y cleient eu defnyddio fel gwarant er mwyn benthyg arian wrth y banc neu gynnwys y wybodaeth mewn cyfrifon cwmni.

RHINWEDDAU PERSONOL

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar bapur ac ar lafar
- Sgiliau cyflwyno gwych
- Natur bendant a chymdeithasol
- Y gallu i weithio dan bwysau
- Sgiliau gwrando a thrafod rhagorol

HYFFORDDIANT & CHYMWYSTERAU

Fel sy'n wir am lawer o swyddi, mae sawl llwybr i mewn i'r proffesiwn. Un enghraifft o lwybr mynediad posibl yw:

SAFLE IAU

Arwerthwr Iau
£18,000
Gradd wedi'i chymeradwyo gan RICS

SAFLE CANOLIG

Arwerthwr
£23,000
Fel ar y chwith gydag APC (Statws siartredig)

SAFLE HŶN

Arwerthwr Hŷn
£40,000
Fel ar y chwith gyda chyfrifoldebau rheoli a phrofiad

RICS = Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig
APC = Asesiad o Gymhwysedd Proffesiynol. Bydd hyn yn cymryd isafswm o ddwy flynedd i'w gwblhau ac yn rhoi statws siartredig i chi.

GWYBODAETH BELLACH

www.connexions-direct.com/jobs4u
www.ricscourses.org/Pages/Home.aspx
www.findyourway.co.uk
www.assetskills.org

Swyddi Cysylltiedig:
Gwerthwr Tai, Asiant Gosodiadau, Syrfëwr Siartredig

Astudiaeth Achos

Dechreuais yn y proffesiwn ar Gynllun YTS dros 23 mlynedd yn ôl gan ennill dyrchafiad i swydd Rheolwr Gyfarwyddwr ac Arwerthwr oddi fewn i'r cwmni. Yr wyf hefyd wedi cadeirio'r Gymdeithas Genedlaethol o Briswyr ac Arwerthwyr, rwy'n Syrfëwr Siartredig, ac yn 2003 cefais fy ethol y Llywydd Cenedlaethol ieuengaf erioed o'r Gymdeithas Genedlaethol o Arwerthwyr Tai (NAEA).

Rydym yn cynnal rhyw 5 arwerthiant y flwyddyn, gyda rhwng 5 a 30 o eitemau, ac yn cael ein graddio fel rhif 1 Gogledd Cymru, ac yn ddiweddar fe enillom wobr 'Yr Arwerthwyr Eiddo Gorau' yn Negotiator UK.

Fel Syrfëwr Siartredig hefyd, mae fy nyddiau'n amrywio a'r teimlad gorau yw gwireddu breuddwyd rhywun wrth iddynt daro bargen mewn ocsiwn. Mae cyfnod Arwerthiant yn un cyffrous a heriol, felly bydd angen ymrwymiad arnoch a chariad at y gwaith!

Melfyn Williams

asset skills